

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2014/15

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Aled Morris Jones

Parti: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Ward: Twrcelyn

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Ers mis Mai 2013 rwyf wedi bod yn Aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor ac yn Ddeilydd Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd.

Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	¹ Ffigyrau Presenoldeb
Cyngor	8 (73%)
Y Pwyllgor Gwaith	11 (85%)
Is-bwyllgor Indemniadau	Dim cyfarfodydd wedi eu cynnal

Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.

Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrf allanol, er enghraifft.

Rwy'n Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu 4 cyfarfod) a'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau.

Rwyf hefyd yn Eiriolydd y Lluoedd Arfog ar gyfer y Cyngor.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:	Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd	Nifer a fynychwyd
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	4	3
Grŵp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon	3	2
Menter Môn	5	3
Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa	2	2

¹ Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Mae wedi bod yn flwyddyn lawn iawn.

Rwyf wedi bod yn trafod polisi Buddion Cymunedol y Cyngor Sir mewn perthynas â phrosiectau mawr. Cynorthwyais i drefnu ymweliad â Chyngor Sir Gwlad yr Haf, sydd eto i ddiwydd, i weld sut mae'r ardal yn ymdopi gyda datblygiad Gorsaf Bŵer Hinckley. Cefais drafodaeth gyda swyddogion y Cyngor Sir ynghylch yr ymateb i PAC1 gan Pŵer Niwclear Horizon. Awgrymais fod y Pwyllgor Gwaith i gyd yn ymweld â safle Wylfa Newydd i'w weld.

Rwyf wedi bod yn rhan o geisio cymorth grant i ailsefydlu Parc Sglefrio ym Mhlas Arthur. Dechreuais y broses o drosglwyddo perchnogaeth Cwrs Golff Llangefni i Bartneriaeth Tref Llangefni. Rwyf wedi bod yn rhan o adolygu cyfleusterau morwrol a pholisïau codi tâl. Rwyf wedi bod yn gweithio er mwyn i'r ras feicio, 'Tour of Britain', gychwyn ar Ynys Môn ym mis Medi 2015.

Dan yr Ymddiriedolaeth Elusennol, fel Is-gadeirydd, rwyf wedi parhau i ymchwilio i ffyrdd o ehangu aelodaeth yr Ymddiriedolaeth a'r posibilrwydd iddi gael ei rheoli'n annibynnol.

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwy'n llywodraethwr ysgol yn Ysgolion Cynradd Rhosybol a Phenysarn.

Rwy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn Rhosybol, Llanbadrig a Llaneilian a Chyngor Tref Amlwch.

Rwyf wedi bod yn aelod o Gyngor Cymuned Rhosybol ers 1986.

Ceisiaf helpu fy etholwyr gyda materion o bryder.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi cefnogi a gweithio ar nifer o fentrau penodol, er enghraifft:

- Sicrhau bod y ffordd trwy Tregele yn cael ei gwella.
- Mesurau diogelu rhag cyflymder gyferbyn ag Ysgol Gynradd Rhosybol.
- Parhau i bwysu ar Horizon am welliannau i'r ffordd o Gemaes i Amlwch yn wyneb datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd.
- Wedi cefnogi prosiect i gael mynediad i'r traeth ym Mae Cemaes a chais grant i Ganolfan Treftadaeth Cemaes.
- Codi plac Syr Owen Thomas, Neuadd, Llanbadrig.
- Wedi cefnogi trosglwyddiad y Camerâu Teledu Cylch Cyfyng i Gynghorau Tref Ynys Môn yng nghyswllt Amlwch.
- Wedi cefnogi cais am grant ar gyfer yr Ŵyl Gopr, Porth Amlwch.

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Seminar Diwygio Llywodraeth Leol	Medi 2014
Seminar ar y Polisi Dyrannu Tai	Ionawr 2015

Es ar gwrs arweinyddiaeth gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol hefyd, gan ei ariannu fy hun.

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwy'n parhau i gymryd diddordeb brwd yn natblygiad Prosiect Wylfa Newydd a sut y bydd yn effeithio'n uniongyrchol ar ward Twrcelyn a'i thrigolion.

Mae gennyf berthynas weithio dda gyda fy nghyd-gynghorwyr yn y ward, sef William T. Hughes a Richard Owain Jones.

Y Cynghorydd Aled Morris Jones	Ebrill 2015
---------------------------------------	--------------------